OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1149

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020

## RHAN 2

### Cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull gydag eraill

**Cyfyngiad ar deithio i Gymru**

**5.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson sy'n byw y tu allan i Gymru, heb esgus rhesymol, fynd i Gymru neu aros yng Nghymru.

(2) Mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol yng Nghymru—

(a) cael—

(i) bwyd a chyflenwadau meddygol ar gyfer y rheini ar yr un aelwyd (gan gynnwys anifeiliaid ar yr aelwyd) neu ar gyfer personau hyglwyf;

(ii) cyflenwadau ar gyfer cynnal, cynnal a chadw a gweithrediad hanfodol yr aelwyd, neu aelwyd person hyglwyf;

(b) cael arian oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraff 44 neu 45 o Ran 3 o Atodlen 1 neu adneuo arian gydag unrhyw fusnes neu wasanaeth o'r fath;

(c) cael neu ddarparu cynhorthwy meddygol, gan gynnwys cael gafael ar unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 47 o Ran 3 o Atodlen 1 neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;

(d) darparu, cael neu gael gafael ar ofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal plant neu ofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006, pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;

(e) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol pan na fo'n rhesymol ymarferol gwneud y gwaith neu ddarparu'r gwasanaeth o'r tu allan i Gymru;

(f) pan fo'r person yn athletwr elît, hyfforddi ar gyfer digwyddiad chwaraeon penodedig, paratoi ato a chystadlu ynddo;

(g) darparu hyfforddiant neu gymorth arall i athletwr elît mewn cysylltiad â digwyddiad chwaraeon penodedig;

(h) gwasanaethu fel swyddog mewn digwyddiad chwaraeon penodedig neu fel arall ymwneud â'i redeg;

(i) darparu neu gael cynhorthwy brys;

(j) mynd i weinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil—

(i) fel parti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil,

(ii) os caiff ei wahodd i fynd iddi, neu

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil;

(k) mynd i angladd—

(i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,

(ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;

(l) cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;

(m) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus neu gael y gwasanaethau hynny;

(n) cael gafael ar wasanaethau addysgol, yn ddarostyngedig i reoliadau 6 a 7;

(o) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw ar yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;

(p) symud cartref;

(q) osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed;

(r) teithio i gyrraedd man y tu allan i Gymru.

(3) At ddibenion paragraff (1), nid yw'n esgus rhesymol i berson fynd i Gymru neu aros yng Nghymru i wneud unrhyw beth os byddai'n rhesymol ymarferol i'r person wneud y peth hwnnw y tu allan i Gymru.